# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## Agenda (SLC (3)-27-08)

**Dyddiad: 25 Tachwedd 2008**
**Amser : 8.15 am**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd**

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

### Eitem 2: Offerynnau na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2.

### Eitem 2.1: Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

SLC218 - Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 9 Tachwedd 2008. Fe'i gosodwyd ar 11 Tachwedd 2008. Yn dod i rym ar 10 Rhagfyr 2008

- yn diwygio Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2006 drwy gyflwyno mesurau i atal Anoplophora chinensis (y chwilen gorniog sitrws) rhag cael ei chyflwyno i Gymru a'i lledaenu. Mae'r Gorchymyn hwn yn gweithredu rhwymedigaethau cyfarwyddol y Gymuned drwy Gyfarwyddeb y Comisiwn 2000/29/EC. O dan y Gyfarwyddeb hon, gwaherddir cyflwyno a lledaenu Anoplophora chinensis ond ni nodir mesurau mewn perthynas â deunyddiau planhigion sy'n dueddol o gael y pla. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi mabwysiadu Penderfyniad drafft a gynlluniwyd i gyflwyno mesurau o'r fath ond nid yw'r Penderfyniad yn weithredol eto. Mae'r Gorchymyn hwn yn rhoi rheolau newydd ar waith cyn cyhoeddi'r Penderfyniad drafft, gweithred a ganiateir o dan Erthygl 16(2) o Gyfarwyddeb 2000/29.

SLC219 - Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 10 Tachwedd 2008. Fe'u gosodwyd ar 12 Tachwedd 2008. Yn dod i rym ar 31 Rhagfyr 2008

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn diwygio Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992 ("Rheoliadau 1992"). Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn ail-wneud Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2008. O dan Ran II o Atodlen 8 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 mae'n ofynnol i awdurdodau bilio (yng Nghymru, cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol) dalu symiau (a elwir yn gyfraniadau ardrethu annomestig) i Weinidogion Cymru. Mae Rheoliadau 1992 yn cynnwys rheolau ar gyfer cyfrifo'r cyfraniadau hynny ar gyfer awdurdodau bilio Cymru. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 1992 drwy roi Atodlen 4 newydd yn lle'r un bresennol (Ffigurau Poblogaeth Oedolion). Mae'r Rheoliadau hyn yn diweddaru'r ffigurau poblogaeth oedolion ar gyfer pob cyngor. Defnyddir y rhain i bennu trothwy ar gyfer awdurdodau lleol er mwyn ailgyfrif, lle mae hynny'n angenrheidiol, eu cyfraniadau dros dro i'r gronfa. Os na wneir y newidiadau hyn, bydd yr amcangyfrifon a wneir gan awdurdodau lleol er mwyn cyfrannu i'r gronfa gyfunol yn anghywir gan y byddant wedi'u seilio ar ffigurau poblogaeth blynyddoedd blaenorol, sydd bellach wedi newid.

### Eitem 3: Darpariaethau pwerau dirprwyedig "Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru) 200-":

Dr Brian Gibbons AC, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

Reg Kilpatrick, Pennaeth yr Is-adran Bolisi Llywodraeth Leol

Sioned Tobias, Cyfreithiwr

SLC(3)-24-2008(p1) - Adroddiad y Cynghorwyr Cyfreithiol ar Fesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru) 200-
SLC(3)-24-2008(p2) - Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru) 200-
SLC(3)-24-2008(p3) - Memorandwm Esboniadol i'r Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru) 200-
SLC(3)-27-2008(p1) - Cyflwyniad y Gweinidog ar Fesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru) 200-

### Eitem 4: Unrhyw fater arall

### Eitem 5: Dyddiad y cyfarfod nesaf